YR ATODLEN

Amodau

RHAN 2

Amodau cyn y defnydd cyntaf at ddibenion rheoli ar y ffin

Rheoli gwastraff a draenio

18.—(1) Rhaid i wastraff gael ei waredu a dŵr ddraenio o'r datblygiad, naill ai o adeiladau neu o arwynebau caled, drwy'r system ddraenio briodol.

(2) Y system ddraenio briodol yw SDdG ar gyfer dŵr ffo o'r elfennau a amlinellir yng ngholofn (1) yn Nhabl 2, gyda cholofn (2) yn nodi'r dull draenio.

Tabl 2

(1) Elfen	*(2) Y dull draenio*
Ffyrdd mynediad	Casglu gan stripiau hidlo a phantiau neu ddraeniau hidlo i lifo i'r basn crynhoi ac yna i'r cwrs dŵr.
Y llain ddanfoniadau a pharcio i gerbydau nwyddau trwm	Casglu drwy ddraenio llinellol gyda gwahanydd olew i lifo i'r basn crynhoi ac yna i'r cwrs dŵr.
Meysydd parcio	Ymdreiddio i'r ddaear drwy balmant hydraidd a'r gweddill i lifo i'r basn crynhoi ac yna i'r cwrs dŵr.
Llwybrau troed	Ymdreiddio i'r ddaear drwy balmant hydraidd a'r gweddill i lifo i'r basn crynhoi ac yna i'r cwrs dŵr.
Yr ardal cwarantin cerbydau	Casglu drwy ddraenio llinellol gyda gwahanydd olew i lifo i'r basn crynhoi ac yna i'r cwrs dŵr.
Dŵr o doeon	Casglu drwy bibellau dŵr i lifo i'r basn crynhoi ac yna i'r cwrs dŵr.
Ffordd fynediad argyfwng	Draenio uniongyrchol i'r ddaear.
Cilfan yr is-orsaf	Draenio uniongyrchol i'r ddaear.
Ardaloedd wedi eu tirlunio	Draenio uniongyrchol i'r ddaear.

(3) Y garthffos dŵr brwnt yw'r system ddraenio briodol ar gyfer—

(a) dŵr brwnt domestig o—

(i) swyddfeydd ac ardaloedd lles adeiladau arolygu,

(ii) adeiladau lles gyrwyr, a

(iii) adeiladau lles staff;

(b) elifion masnach o—

(i) ardaloedd arolygu ar gyfer planhigion, cynnyrch ac anifeiliaid bach, a

(ii) storfeydd biniau allanol.

(4) Y garthffos dŵr brwnt neu ddraenio i danciau cadw dros dro er mwyn eu symud ymaith gan dancer yw'r system ddraenio briodol ar gyfer elifion masnach o—

(a) ardaloedd arolygu ar gyfer anifeiliaid mawr gan gynnwys ceffylau, a

(b) storfeydd gwastraff anifeiliaid allanol.

(5) Yn yr amod hwn, ystyr "SDdG" yw system ddraenio gynaliadwy ar gyfer rheoli dŵr glaw, gan gynnwys eira a mathau eraill o ddyddodiad, gyda'r nod o—

(a) lleihau'r difrod gan lifogydd,

(b) gwella ansawdd dŵr,

(c) diogelu a gwella'r amgylchedd,

(d) gwarchod iechyd a diogelwch, ac

(e) sicrhau sefydlogrwydd a chydnerthedd systemau draenio.